

Janet Finch-Saunders AM/AC

Assembly Member for Aberconwy
Aelod Cynulliad dros Aberconwy

Shadow Secretary for Local Government
Ysgrifennydd yr Wrthblaid ar gyfer Llywodraeth Leol

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales



Y Bnr. Elfed Roebrts ysw.
Prif Weithredwr
Edsteddfod Genedlaethol Cymru
40 Parc Tŷ Glas
Llanishen
Caerdydd
CF14 5DU

Swyddfa Janet Finch-Saunders AC,
29 Heol Madog,
Llandudno,
LL30 2TL.
01492 871 198

24 Hydref 2017

Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Caerdydd,
CF99 1NA.
0300 200 7454

Annwyl Mr Roberts,

Ysgrifennaf atoch ynglŷn â'ch penderfyniad gwych i ddod â'r Eisteddfod Genedlaethol i Sir Conwy yn 2019, ac i wneud cais ffurfiol bod yr anrhydedd o gynnal yr Ŵyl yn cael ei roi i dref farchnad hanesyddol Llanrwst.

Erbyn 2019, bydd 30 mlynedd wedi mynd heibio ers i Lanrwst gynnal yr Eisteddfod Genedlaethol ddiwethaf (roedd yn Abergele yn 1995) ac ni allaf feddwl am leoliad mwy addas yn Sir Conwy i gynnal y digwyddiad mawreddog hwn.

Hoffwn gymeradwyo'r llythyr a gyflwynwyd i chi gan Rosslyn Morgan, Clerc Cyngor Tref Llanrwst, ar ran ei aelodau etholedig a phobl a chymunedau Llanrwst a Dyffryn Conwy. Yn fy marn i, mae'r pwyntiau a godwyd yn y llythyr hwn yn gyfiawnhad cadarn dros gynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst.

Yn amlwg, nid oes amheuaeth bod y brwdfrydedd dros gynnal yr Eisteddfod yn Nyffryn Conwy yn llawer iawn mwy nag unrhyw gais i leoli'r Ŵyl yn Abergele. Mae'r ffaith bod 200 a mwy o bobl yn bresennol yn y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yng Nglasdir, Llanrwst neithiwr yn cadarnhau hyn.

At hynny, mae eisteddfodau yn parhau i ffynnu yn Llanrwst a'r cylch. Er enghraifft, Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy Llanrwst, Eisteddfod Melin y Coed, ac Eisteddfod Ysgol Uwchradd Dyffryn Conwy. Mae'r un olaf a nodais yn ddigwyddiad lleol o bwys mawr gan fod y gwaith gwych y mae'r ysgol wedi'i wneud yn ailgychwyn y traddodiad hwn, yn golygu bod cystadlu mewn eisteddfodau a'r diddordeb ynddynt yn amlwg iawn ymysg pobl ifanc yr ysgol uwchradd ac yn ffynnu.

Wrth ystyried bod dalgylch yr ysgol yn ymestyn cyn belled i'r gogledd â Glan Conwy, cyn belled i'r Dwyrain â Llangernyw, cyn belled i'r Gorllewin â Capel Curig, a chyn belled i'r De ag Ysbyty Ifan a

[Parhad]

janet.finch-saunders@assembly.wales www.janetfinchsaunders.org.uk

Janet Finch-Saunders will treat in confidence any personal information which you may pass on to her, and she will normally allow her staff to see it, so that they can consult with relevant authorities in order to help and advise you. We may wish to write to you from time to time to keep you informed on issues which you may find of interest. Please let us know if you do not wish to be contacted for this purpose.

Mi wnaiff Janet Finch-Saunders cadw unrhyw wybodaeth bersonol yn gwbl gyfrinachol, ac fel arfer mi fydd rhaid iddi rannu'r wybodaeth 'efo aelodau o staff i'w galluogi nhw i ddellio 'efo'r awdurdodau perthnasol er mwyn eich helpu a'ch cynorthwyo chi. Efallai mi fydd angen i rywun ysgrifennu atoch er mwyn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf o bwys. Gadwch wybod i ni os nad oes diddordeb gennych mewn cael eich cysylltu at y diben hwn.

Janet Finch-Saunders AM/AC

Assembly Member for Aberconwy
Aelod Cynulliad dros Aberconwy

Shadow Secretary for Local Government
Ysgrifennydd yr Wrthblaid ar gyfer Llywodraeth Leol

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales



[Parhad]

Blaenau Ffestiniog, dylai fod yn gwbl amlwg bod Llanrwst yn ganolbwynt i gymunedau gwledig di-ri, ac mae gan frwdfrydedd y cymunedau hyn mewn eisteddfodau seiliau cadarn sy'n ymestyn ar draws yr holl genedlaethau.

Mae'r brwdfrydedd sydd i'w deimlo yn Llanrwst a'r cylch dros yr Eisteddfod yn dod i'r amlwg wrth ystyried y ffaith y ffurfiwyd Corwst ychydig cyn Eisteddfod Genedlaethol Môn. Fel y gwyddoch rwy'n siŵr, fe wnaeth y côr hwn gryn argraff, yn enwedig o gofio ei fod wedi llwyddo i ddenu 100 a mwy o aelodau.

Yn olaf, o ran ystyriaethau ymarferol, mae'r A470 – prif gefnffordd sy'n mynd drwy galon Cymru ac sy'n cael ei chynnal a'i chadw'n dda - yn gwasanaethu Llanrwst ac yn gwneud y dref yn hawdd ei chyrraedd o bob cwr o'r wlad.

Mawr obeithiaf y bydd yr "awydd cryf a brwd" hwn i gynnal yr Eisteddfod Genedlaethol, fel y mynegir yn llythyr Cyngor y Dref, yn cael ei ystyried yn ffafriol gan Gyngor yr Eisteddfod, neu'r corff perthnasol a benodir i ddewis lleoliad y Brifwyl.

Yn gywir,

Janet Finch-Saunders AC

janet.finch-saunders@assembly.wales www.janetfinchsaunders.org.uk

Janet Finch-Saunders will treat in confidence any personal information which you may pass on to her, and she will normally allow her staff to see it, so that they can consult with relevant authorities in order to help and advise you. We may wish to write to you from time to time to keep you informed on issues which you may find of interest. Please let us know if you do not wish to be contacted for this purpose.

Mi wnaiff Janet Finch-Saunders cadw unrhyw wybodaeth personol yn gwbl gyfrinachol, ac fel arfer mi fydd rhaid iddi rannu'r wybodaeth 'efo aelodau o staff i'w galluogi nhw i ddellio 'efo'r awdurdodau perthnasol er mwyn eich helpu a'ch cynorthwyo chi. Efallai mi fydd angen i rywun ysgrifennu atoch er mwyn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf o bwys. Gadwch wybod i ni os nad oes diddordeb gennych mewn cael eich cysylltu at y diben hwn.